**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JH/3178/21

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
commissioner@futuregenerations.wales

8 Hydref 2021

Annwyl Sophie,

**Ymateb i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020**

Hoffwn ddiolch ichi am eich gwaith parhaus wrth helpu Llywodraeth Cymru i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ysgrifennaf atoch i gwblhau ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020. Yn ogystal â'r llythyr hwn, rwy'n ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd, ac mae ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfer 2021 (y 5ed Senedd) wedi'i gyhoeddi. Mae ein hymateb i'r Pwyllgor yn amlinellu ein hymrwymiadau i gryfhau ein dulliau o weithredu'r Ddeddf yn y Llywodraeth, cyrff cyhoeddus, a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn parhau i weithio gyda chi a'ch tîm i gyflymu'r broses o roi'r Ddeddf ar waith yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

Yn y cyd-destun hwn, hoffwn ail gadarnhau ein dull gweithredu ar gyfer ymateb i adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Ym mis Hydref 2020, amlinellodd y Prif Weinidog mewn llythyr na fyddai Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adroddiad mewn sylwadau llinell wrth linell sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain, gan na fyddai hynny'n ffordd ystyrlon o ymdrin â'r heriau, y gwelliannau, a'r cyfleoedd a nodir yn yr adroddiad. Mae ein hymateb yn disgrifio sut yr ydym yn ymdrin â'r adroddiad, a gyhoeddir unwaith bob pum mlynedd, fel rhan o'r camau yr ydym yn eu cymryd i ymwreiddio a gwella ein dulliau o weithredu'r Ddeddf. Bydd Gweinidogion yn dal i ymgysylltu â chi ar faterion portffolio perthnasol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth ar agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac rydym yn cydnabod ein rôl fel ceidwaid y ddeddfwriaeth. Rydym wedi tynnu cyrff cyhoeddus ynghyd i drafod sut y gallwn fynd ati i wireddu ein huchelgeisiau datblygu cynaliadwy i Gymru drwy'r Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn cyfarfod ag aelodau'r Fforwm maes o law i drafod sut y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth yn genedlaethol, a sut y gallwn gymryd camau penodol gyda'r Fforwm, gan dynnu'r camau hynny ynghyd mewn cynllun ar gyfer tymor y Llywodraeth hwn.

Hefyd yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar gerrig milltir a dangosyddion cenedlaethol i Gymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni fy ymrwymiad i gyhoeddi'r cerrig milltir cenedlaethol cyntaf, diweddaru'r dangosyddion, a chyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol erbyn mis Rhagfyr 2021. Mae ein gwaith i gasglu'r cerrig milltir, y dangosyddion, a thueddiadau'r dyfodol gyda'i gilydd o dan y teitl Llunio Dyfodol Cymru yn creu cyfle i ymgysylltu â phobl Cymru ynghylch dyfodol ein gwlad, gan wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r Ddeddf. Dyma faes rwy'n disgwyl i'r fforwm ei ystyried yn ystod y misoedd nesaf i ategu eich gwaith o hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Hefyd rwy'n falch y bydd Llywodraeth Cymru yn anfon cyfranogwyr i fod yn rhan o gohort nesaf Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar ôl cwrdd â chyfranogwyr o'r cohort cyntaf, rwy'n hyderus bod yr Academi yn helpu pobl ledled Cymru i gael y sgiliau, yr hyder, a'r brwdfrydedd i hyrwyddo gwerthoedd ac ethos y Ddeddf. Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â chohort nesaf yr academi yn ystod y misoedd nesaf.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sicrhau bod newidiadau adeiladol yn cael eu gwneud i bolisïau, prosesau a diwylliant mewn sefydliadau ledled Cymru. Byddwn yn parhau i arwain yr agenda hon drwy ein hymdrechion rhyngwladol, gan gyflawni ein hamcan llesiant i sicrhau bod Cymru yn cael y presenoldeb cryfaf posibl ar lwyfan y byd. Mae cyhoeddi adroddiad Elsevier yn ddiweddar yn dangos sut mae Cymru yn cyfrannu at hynt y gwaith o gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig drwy wneud ymchwil. Drwy fod yn aelod dyfal a gweithgar o rwydweithiau rhyngwladol, megis Regions4SD a Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant, rydym yn sicrhau bod Cymru'n parhau'n flaenllaw mewn gweithgareddau i adael etifeddiaeth werthfawr i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn ddiolchgar ichi am eich ymdrechion i arddangos dull gweithredu unigryw Cymru, ac am wneud achos i ddarbwyllo eraill i ddilyn ein hesiampl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yr angen i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur yn ganolog i bopeth y mae'n ei wneud. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu'r set o ymrwymiadau uchelgeisiol y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cyflawni yn ystod tymor y Senedd hon, ac mae'n sicrhau y gall pobl Cymru weld bod eu llais democrataidd yn cael ei adlewyrchu yn ein gweithredoedd ni. Mae cyhoeddi ein hamcanion llesiant fel rhan o'r Rhaglen yn dangos y rôl ganolog y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei chwarae yn ein syniadau a'n ffordd o wneud polisïau. Mae'r Rhaglen hefyd yn adeiladu ar werthoedd Cymru ynglŷn â chymuned, cydraddoldeb, a chyfiawnder cymdeithasol er mwyn creu cymunedau sy'n fwy caredig, yn fwy cysylltiedig, ac yn gryfach.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yma yng Nghymru, mae gennym gyfle i adeiladu gwlad sy’n gryfach, yn decach, ac yn wyrddach. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau’n gadarn ei hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, ac rwy’n edrych ymlaen at wireddu ein hagenda yn ystod y tymor hwn er mwyn sicrhau bod Cymru yn wlad y gallwn fod yn falch o’i throsglwyddo i ofal cenedlaethau’r dyfodol.

Yr eiddoch,

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Copïau at: Y Prif Weinidog, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol